

Gwybodaeth i Gleifion sy'n Defnyddio Cymorth Anadlu Anfewnwthiol (NIV)

Canolfan Gwsg ac Anadlu Gwent Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Sut mae NIV yn gweithio?

Mae angen i bobl sy'n defnyddio NIV wisgo masg meddal sydd wedi'i gysylltu â pheiriant pwmp aer. Mae'r masg naill ai yn mynd dros eich trwyn yn unig, neu dros eich trwyn a'ch ceg. Mae strap yn dal y masg yn sownd yn ei le ond gellir ei dynnu'n hawdd, er enghraifft, er mwyn i chi allu bwyta ac yfed.

Gyda NIV, caiff llif o aer gyda rhywfaint o bwysedd ei chwythu i'r masg wrth i chi anadlu; mae'r pwysedd yn amrywio yn ystod y cylch anadlu. Bydd llif yr aer ar ei gryfaf pan fyddwch chi'n anadlu i mewn, er mwyn eich helpu chi i gymryd cymaint o aer â phosibl. Mae pwysedd llif yr aer yn is pan fyddwch chi'n anadlu allan.

Mae'r pwysedd parhaus hwn yn helpu i ledu'r llwybrau anadlu, gan alluogi mwy o aer i fynd i mewn ac allan o'r ysgyfaint. Gelwir y driniaeth hon yn BIPAP / NIV.

Sut mae'n helpu?

Pan fyddwn ni'n anadlu i mewn, rydym ni'n tynnu ocsigen allan o'r awyr i'n cadw'n fyw - mae'r ocsigen hwn yn cael ei drosglwyddo i'r gwaed yn ein hysgyfaint. Yna mae'r corff yn defnyddio'r ocsigen ac yn cynhyrchu nwy gwastraff o'r enw carbon deuocsid. Dyma rydym ni'n ei anadlu allan.

Mae rhai pobl y mae arnyn nhw glefyd difrifol ar yr ysgyfaint yn cael trafferth cael digon o ocsigen i'r corff. Os yw lefel yr ocsigen yn gostwng islaw lefel benodol, mae'n gymharol hawdd rhoi ocsigen ychwanegol iddyn nhw anadlu. Fodd bynnag, weithiau, mae'r ymdrech ychwanegol o geisio cadw lefelau digonol o ocsigen yn y gwaed yn eu blino. Mae'n bosibl bod ganddyn nhw broblem ychwanegol hefyd sef nad ydyn nhw'n cael gwared â charbon deuocsid o'r gwaed yn effeithlon.

Mae hyn yn fwy anodd ei drin. Mae'n broblem benodol mewn clefydau sy'n achosi rhwystr yn ein llwybrau anadlu, fel clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Gan fod y llwybrau anadlu wedi culhau, mae'n fwy anodd cael ocsigen i mewn i'r ysgyfaint a charbon deuocsid allan.

Nod defnyddio NIV yw cynyddu lefelau'r ocsigen ac yn benodol, eich helpu chi i anadlu mwy o garbon deuocsid allan. Mae hefyd yn lleihau rhywfaint o'r ymdrech wrth anadlu oherwydd nad oes rhaid i gyhyrau eich brest weithio mor galed; felly mae'n helpu lleddfu'r teimlad o fod yn brin o anadl.

Am ba mor hir mae angen i mi ddefnyddio NIV?

Argymhellir eich bod yn defnyddio NIV am o leiaf 6 awr y nos, er bod y defnydd yn amrywio ar gyfer pob unigolyn. I rai, mae defnyddio NIV dros nos yn ddigon, ond bydd eraill yn elwa o ddefnyddio NIV am gyfnodau yn ystod y dydd, yn enwedig os ydyn nhw'n cysgu.

Sut mae'r masg yn ffitio?

Dylai'r masg fod yn gyfforddus i'w ddefnyddio dros nos. Mae'n bwysig nad yw'r strapiau ar y pen yn rhy dynn rhag ofn i'r croen ddatblygu doluriau. Er hynny, dylai'r masg ffitio'n ddigon tynn fel nad yw'n gollwng aer. Cofiwch ddatod strapiau'r masg bob tro wrth ei wisgo a'i dynnu, gan na fydd y benwisg yn cadw ei siâp os caiff ei ymestyn dro ar ôl tro.

Beth allaf i ei wneud i wneud y driniaeth yn fwy cyfforddus?

Os yw eich masg yn rhwbio, gellir lleddfu unrhyw anghysur trwy roi gel KY ar y manau hyn. Weithiau gall pad bach o ddefnydd meddal helpu i leihau'r pwysau cyn belled nad oes unrhyw doriadau ar y croen. Os yw'r broblem yn parhau, cysylltwch â'r Nyrs Arbenigol.

Mae'n bosibl y byddwch chi weithiau, yn teimlo'n chwyddedig oherwydd eich bod wedi llyncu aer; gellir lleddfu hyn trwy fwyta o leiaf 2 awr cyn defnyddio NIV.

Sut fyddaf i'n gwybod os nad yw'r driniaeth yn gweithio'n iawn?

Os yw'n ymddangos bod eich cyflwr yn gwaethygu, neu os ydych chi'n profi unrhyw un o'r canlynol, dylech gysylltu â'r Ganolfan Gwsg neu eich Meddyg Teulu.

- Cur pen wrth ddeffro
- Mwy o ddiffyg anadl
- Chwyrnu anarferol
- Cysgu'n ormodol yn ystod y dydd

Beth os ydw i'n sâl?

Os byddwch chi'n sylwi bod eich anadlu wedi mynd yn fwy anodd yn raddol dros gyfnod, efallai bod angen addasu eich triniaeth. Dylech gysylltu â'r Nyrs Arbenigol. Fodd bynnag, os ydych chi'n teimlo bod eich symptomau wedi gwaethygu, neu os oes gennych chi haint ar y frest â newid yn y sbwtwm, byddai'n ddoeth ymweld â'ch meddyg teulu.

Os oes angen cymorth meddygol brys arnoch chi, ffoniwch 999. Gwnewch yn siŵr bod criw'r ambiwlans yn gwybod eich bod yn defnyddio NIV, ac ocsigen (os yw'n berthnasol).

OS YDYCH CHI'N MYND I'R YSBYTY, MAE'N HANFODOL EICH BOD CHI'N MYND Â'CH HOLL OFFER I'R YSBYTY GYDA CHI.

Dulliau glanhau nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo

Peidiwch â glanhau na diheintio eich peiriant NIV nac yr ategolion gan ddefnyddio cynnyrch glanhau sy'n gysylltiedig ag osôn na golau uwchfioled. Nid yw'r rhain yn cael eu marchnata'n gyfreithlon i'w defnyddio ac nid oes digon o wybodaeth am eu diogelwch na'u heffeithiolrwydd. Rhoddir manylion am ddulliau glanhau sydd wedi cael eu cymeradwyo, isod.

Sut mae glanhau'r offer?

Cyn ei lanhau, datgysylltwch y peiriant NIV. Dylech ddefnyddio glanedydd (detergent) ysgafn tebyg i hylif golchi llestri. Peidiwch â defnyddio cannydd (bleach) nac unrhyw gynnyrch glanhau arall. Archwiliwch y ddyfais a'r cebl trydan i weld a oes difrod.

Peidiwch â defnyddio'r peiriant os oes nam arnynt, dylech gysylltu â'r Nyrs Arbenigol.

BOB DYDD

Dylid sychu'r peiriant, a thu allan a thu mewn i'r masg â lliain llaith.

BOB WYTHNOS

Gellir golchi'r tiwb aer a'i rinsio â dŵr clir a'i hongian i sychu.

Dylid datgymalu, golchi a rinsio'r masg a'i adael i sychu'n naturiol, heb fod wrth wres uniongyrchol.

Os oes gennych ffilter aml dro, dylech olchi hwn mewn glanedydd ysgafn bob pythefnos a rhoi un sych yn ei le.

Os mai ffilteri untro sydd gennych chi, bydd angen eu newid bob 3-6 mis.

Cynhelir y Gwasanaeth Cleifion Allanol yng Nghlinig y Frest, Ysbyty Gwynllyw

Rhifau cyswllt

Meddyg Ymgynghorol

Dr Sara Fairbairn

Ysgrifennydd

Alan Dack - Rhif ffôn: - 01633 - 238201

Nyrsys Clinigol Arbenigol

Jeanette Richards/Laura Ryan – Rhif ffôn: - 01633 – 656321- **CPAP**

Sam Jones - Rhif ffôn: - 01633 – 656355 **NIV**

Amy Badham – Rhif ffôn: - 01633 656355 **NIV**

Prif Nyrs Clinig y Frest

Claire Acreman – Rhif ffôn: - 01633 - 238186

I wneud apwyntiad cysylltwch â'r Ganolfan Apwyntiadau: -
Rhif ffôn:- 01495 - 765055 (opsiwn 1 ac yna opsiwn 4)

Mae masgiau/pibellau ar gael gan Nyrsys y Clinig, Rhif ffôn: **01633 238186**.

Os bydd nam ar eich peiriant neu os ydych chi'n pryderu ynghylch eich triniaeth, cysylltwch â'r Nyrs Arbenigol, Clinig y Frest, Ysbyty Gwynllyw

Os oes angen offer newydd arnoch chi, cysylltwch â nyrsys y clinig.

DEWCH Â'R HOLL OFFER I BOB APWYNTIAD YN Y CLINIG GAN SICRHAU EI FOD WEDI EI LANHAU'N DRYLWYR.

Camau Gweithredu a Sylwadau Dyddiad a Llofnod

	Dangoswyd	Cymwys	
<u>Addysgu'r claf</u> Defnyddio NIV Glanhau Gosod y masg at ei gilydd Gwisgo'r masg Ychwanegu O ₂ Taflen wybodaeth Rhifau cyswllt			
<u>Addysgu gofalwyr</u> Defnyddio NIV Glanhau Gosod y masg at ei gilydd Gwisgo'r masg Ychwanegu O ₂ Taflen wybodaeth Rhifau cyswllt			
OPD			
Abg/cbg cyn rhyddhau Canran O ₂ Cyfradd O ₂ yn yr			

organau		
Sbirometreg cyn rhyddhau	Rhagfynegol FEV ₁ Gwirioneddol FEV ₁ Canran a ragfynegwyd	FVC FVC
TTH		
Cysylltu â'r cyflenwr trydan		

**Dangoswch y cerdyn rhybudd hwn bob tro
i'r criw ambiwlans a staff yr ysbyty**



CERDYN RHYBUDD OCSIGEN

Enw:

Mae risg y byddaf yn dioddef methiant anadlu math 11 gyda lefel uchel o CO₂,

Defnyddiwch fy masg Venturi % i gyrraedd dirlawnder ocsigen o
% % yn ystod gwaethygiadau

Defnyddiwch aer cywasgedig i yrru newbiwlyddion (gydag ocsigen trwynol ar 2 l/mun)

Os nad oes aer cywasgedig ar gael, cyfyngwch newbiwlyddion sy'n cael eu gyrru gan ocsigen i 6 munud.


Therapi Ocsigen



Pan fo angen ocsigen, chwiliwch am y porth ychwanegol rhwng y peiriant a'r tiwbiau



Er mwyn ychwanegu ocsigen, tynnwch y cap fel y dangosir yn y llun



Cysylltwch y tiwbiau ocsigen â'r porth fel y dangosir yma.

Cynhyrchwyd y daflen gan: Lyndsey Ward Uwch Ymarferydd Nyrsio Anadlol
Sam Jones Nyrs Arbenigol Anadlol NIV

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
This document is available in English and Welsh**